# CYNLLUN AC ASESIAD GWASTRAFF RHANBARTHOL DE ORLLEWIN CYMRU

## CYFARFOD Y GRŴP TECHNEGOL RHANBARTHOL

### NODIADAU O'R CYFARFOD A GYNHALIWYD AR DDYDD LLUN GORFFENNAF 21AIN 2003 AM 10.00 A.M. YNG NGHANOLFAN DDINESIG PENLLERGAER

**Presennol**

| | |
|---|---|
| Geoff White | CBS Castell-nedd Port Talbot |
| Ceri Morris | CBS Castell-nedd Port Talbot |
| Howell Beaton | CBS Castell-nedd Port Talbot |
| Alban Forster | SLR Consulting Cyf. |
| Steve Bool | CBS Pen-y-Bont ar Ogwr |
| Huw Jenkins | CBS Pen-y-Bont ar Ogwr |
| Audrey Evans | Asiantaeth yr Amgylchedd Cymru |
| Graham Dorrington | Cyngor Sir Ceredigion |
| Eifion Bowen | Cyngor Sir Caerfyrddin |
| Phil Williams | Cyngor Sir Caerfyrddin |
| Ruth Henderson | Dinas a Sir Abertawe |
| Clifford Parish | Dinas a Sir Abertawe |
| Philip Marks | CYLCH |
| Carol Williams | Cyngor Sir Penfro/Parc Cenedlaethol Arfordir Sir Benfro |
| Ruth Brown | Awdurdod Parc Cenedlaethol Bannau Brycheiniog |
| Sue Martin | Llywodraeth Cynulliad Cymru |
| Andy Rees | Llywodraeth Cynulliad Cymru |

1. **Ymddiheuriadau**

| | |
|---|---|
| Peter Kendall | Cyngor Sir Caerfyrddin |
| Neil Bateman | Cyngor Sir Caerfyrddin |
| Cathy O'Brien | Uned Strategaeth ar Wastraff (LlCC) |
| Nick Oakes | Cyngor Sir Ceredigion |

2. **Nodiadau o'r cyfarfod a gynhaliwyd ar Orffennaf 9fed 2003**
Cytunwyd fel cofnod cywir, dim materion yn codi.

Nesaf, cymerwyd eitem 4 o'r agenda.

4. **Ymgynghoriad Cyhoeddus**

Rhoddodd GW adroddiad ar y pwyntiau canlynol.

- Mae lawnsiad y Strategaeth Wastraff Ranbarthol De Ddwyreiniol a De Orllewinol a drefnwyd ar gyfer Dydd Llun, Gorffennaf 28ain 2003 wedi'i gadarnhau ac fe fydd yn cael ei gynnal yn ôl y cynllun;
- Mae cwmni yng Nghaerdydd – Research & Marketing Ltd. – wedi'u cyflogi i weithredu'r gwaith arolwg gyda'r cyhoedd a gyda rhanddeiliaid, gan gynnwys holiadur post a grwpiau ffocws. **Gweithredu:** GW i ddosbarthu'r amserlen derfynol gytunedig ar gyfer y prosiect;
- Mae Research & Marketing Ltd wedi gofyn am restr lawn o godau post ar gyfer y rhanbarth ynghyd â rhestr lawn o randdeiliaid (gan gynnwys cyfeiriadau cyswllt). Nodwyd bod gan Gastell-nedd Port Talbot gronfa ddata o godau post ar gyfer y rhanbarth – ac eithrio Ceredigion. **Gweithredu:** GD i ddarparu rhestr o godau post ar gyfer Ceredigion;
- Gan gyfeirio at y rhestr o randdeiliaid, cytunwyd ei fod yn bwysig cynnwys manylion Cynghorau Cymunedol. Awgrymwyd y gallai ymweld â gwefannau awdurdodau Lleol neu'r Cyngor Cymraeg dros Weithredu Gwirfoddol. **Gweithredu:** CM;
- Bydd y cyfnod ymgynghori o chwe wythnos yn cael ei gynnal rhwng Dydd Llun Medi 1af a Dydd Gwener Hydref 10fed;
- Mae rhaid cwblhau'r testun ar gyfer yr arddangosfa erbyn diwedd Dydd Gwener Gorffennaf 25ain. **Gweithredu:** CM i ddosbarthu drafft erbyn diwedd Dydd Mawrth Gorffennaf 22ain / pob sylw i'w dderbyn erbyn amser cinio Dydd Gwener Gorffennaf 25ain;
- Mae fersiwn Gymraeg y wefan yn awr yn fyw a gellir ei gweld trwy fynd i'r un cyfeiriad: **www.walesregionalwasteplans.gov.uk**

3. **Cynllun Drafft Gwastraff Rhanbarthol**

Diolchodd AF i'r grŵp am yr holl sylwadau a dderbynwyd hyd yn hyn a nododd bod rhaid cynnwys y sylwadau a dderbynwyd yn ddiweddar yn y Cynllun Drafft.

Wedyn, aeth y grŵp trwy'r cynllun drafft gan edrych ar bob tudalen a nodwyd / cytunwyd y pwyntiau canlynol

- T2 – Mae rhaid ehangu'r grynodeb ac mae angen cyfeirio at y ddogfen "...yn nhermau defnydd o'r tir";
- T4 – Rhoi pennawd ar wahan ar gyfer "Egwyddorion y Cynllun Drafft";
- T7 – Rhoi troednodyn i mewn ar gyfer y newidiadau i'r gyfundrefn gynllunio; egluro troednodyn 7;
- T8 – Egluro pŵerau diofyn y Cynulliad gyda throednodyn (**Gweithredu:** SM i anfon e-bost at AF); Newid cyfeiriad Geoff White;
- T10 – Dylai'r lliwiau yn Ffigur 4.1 gyfateb i'r rhai sydd yn Ffigur 4.2; Newid y graddfeydd yn Ffigur 4.2 fel bod y graff yn haws ei ddarllen;
- T11 – Tabl 4.3 **Gweithredu:** CP i ddarparu ffigur Biolegol a Chompostio i AF; dylai'r chweched golofn ddweud "Ailgylchu Deunyddiau" – **Gweithredu**: AF i wirio'r ffigur hwn ar gyfer CBS CNPT; dylid diffinio pob pennawd yn y rhestr termau;
- T13 – Mae rhaid i'r map fod yn eglurach; dangos ffiniau Parciau Cenedlaethol a newid yr allwedd;

- T14 – Para. 4.4.1 (diweddaru gan ddefnyddio'r sylwadau o'r e-bost); dylid newid Pen-y-Bont i "Bro Ogwr"; yn y paragraff olaf, newidiwch i ddweud "...a gosod meini prawf";
- T15 – Troednodyn 12. Gwirio'r statws yn NCT21; Para. 4.4.2. Gwirio tebygolrwydd ailgylchu rhanbarthol ac ailgylchu ar y cyd;
- T16 – Yn aros am ateb gan AA Cymru;
- T17 – 5.0 (ail baragraff) Mae angen cyfeirio at dechnolegau newydd; mae angen cwblhau'r cyfeiriad ar y troednodyn;
- T18 – Para. 5.1.2 Mae angen cynnwys adfeddiant tir;
- T19 – Mae angen adolygu'r diffiniad o Gyfleusterau Ailbrosesu Anadweithiol;
- T20 – Ailadrodd paragraff;
- T21 – ffigur 5.1 Testun ar goll ar hyd y gwaelod; cynnwys MBT yn y graff; cyfrif y troednodyn sy'n cyfeirio at Corus;
- T23 – Ffigur 5.2 Cynnwys rhes gyfanswm ar y tabl; cynnwys troednodyn sy'n cyfeirio'n benodol at Corus (gan gyfrif cyfanswm y cyfleusterau a sut maen nhw'n rheoli eu gwastraff eu hun);
- T24 – Mae angen egluro pwysiad y sgoriau perfformiad; **Gweithredu**: SM i sylwi ar BPEO;
- T25 – Ym mhara 6.1 Cynnwys brawddeg ar ddyhead y fframwaith; dylid cyfeirio at "oblygiadau" yn hytrach na "dyhead";
- T26 – Mae angen i Dabl 6.1 ddefnyddio amrediad ar gyfer MBT (hefyd ar gyfer Tablau 6.2 a graffiau); Mae angen newid y ffigurau amaethyddol;
- T28 – Ffigur 6.1 Ychwanegu ffigurau isod er mwyn eglurdeb;
- T29 – Para. 6.1.2 **Gweithredu**: AR i wirio gwirionedd y datganiad; Ychwanegu troednodyn Doeth Ynghylch Gwastraff;
- T32 – Claddu Sbwriel ychwanegu "...ond ni sefydlwyd unrhyw gysylltiad sicr";
- T33 – Ychwanegu troednodyn ar gyfer "Astudiaethau Eraill" Cyngor y pwyllgor ar docsicoleg..cyfeirio at Doeth Ynghylch Gwastraff yn yr adran HIA; Cyfleusterau ailgylchu a throsglwyddo – dileu "Gall llygredd o gerbydau....bydd yn cael eu cyhoeddi yn fuan"; Compostio – Bio-erosol: troednodyn sy'n cyfeirio at adroddiad y Gweithgor Iechyd a Diogelwch; dileu "Ar hyn o bryd ni feddylir bod astudiaethau effeithiau ar iechyd MBT yn bodoli"; paragraff olaf newidiwch i "yn digwydd ar hyn o bryd ar gyfer DEFRA"; Paragraff 6.3 newid i "fel bod awdurdodau cynllunio yn gallu canfod lleoliadau addas posibl" – a gwiriwch mewn mannau eraill yn y ddogfen;
- T34 – Para. 6.3.1 Mae angen edrych ar y fformatio a'i wella – A3 ar gyfer y siartiau hyn; Newid i "drwybwn"; gwahanu MBT: mae angen gwirio manylion mewn graffau – mae elfennau yn ymddangos i fod yn anghywir;
- T38 – Bydd yn well lleoli paragraff 6.5 mewn Atodiad;
- T39 – Paragraff 6.6 Mae angen aileirio'r trydydd paragraff (cyfeirio at NCT21);
- T40 – Dylid teitlo Adran 7 " Ble yr ydyn ni'n mynd nesaf gyda'r cynllun" – aileirio'r adran gyfan i fynegi beth sy'n digwydd nesaf;
- T42 – cynnwys Gwastraff Amaethyddol yn y Rhestr Termau;
- T45 – Cyfeirio at y Parciau Cenedlaethol yn y diffiniad CDU.

Yng ngoleuni'r holl sylwadau a wnaethpwyd, mynegwyd cefnogaeth ar gyfer cyflwyno ail ddrafft y Cynllun i'r aelodau ar Ddydd Gwener, Awst 8fed.

## 5. <u>Dyddiad Cyfarfod nesaf y Grŵp Technegol</u>

I’w drefnu

## 6. Unrhyw faterion eraill

Ni chodwyd unrhyw faterion eraill.